

HERITAGE LOTTERY FUND CONSULTATION 2018



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



Croeso!

Mae'n amser dweud eich dweud! Hoffai Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) gael eich barn chi am ddyfodol arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth. Rydym yn ymgynghori ar sut dylem ddefnyddio incwm Achosion Da'r Loteri Genedlaethol rhwng 2019 a 2024, ein Fframwaith Ariannu Strategol (FfAS) nesaf.

Rydym wedi holi **pobl sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol** am eu huchelgeisiau nhw ar gyfer yr incwm a gynhyrchir drwy'r tocynnau a brynant. Mae eu gweledigaeth ar gyfer treftadaeth y Deyrnas Unedig a'r manteision cymunedol a chymdeithasol eang y gall buddsoddi mewn treftadaeth eu cynnig, wedi ein hysbrydoli a'n herio. Mae eu barn wedi helpu i lunio'r ymgynghoriad hwn.¹

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar **Adolygiad wedi'i Deilwra**² o CDL, ochr yn ochr â'r adolygiadau ar wahân o amgueddfeydd ac eglwysi yn Lloegr a gyhoeddwyd fel rhan o'r Papur Gwyn ar Ddiwylliant. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymateb i'r adolygiadau hyn, yn benodol ganfyddiadau'r **Adolygiad wedi'i Deilwra** sy'n rhoi pwyslais ar:

- weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill ar draws y Deyrnas Unedig i sicrhau bod ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 yn gosod **blaenoriaethau strategol clir ar gyfer buddsoddiadau'r Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth**.
- sicrhau bod pob agwedd ar ein gwaith yn effeithlon, gan gynnwys **symleiddio a diweddar** ein portffolio a'n prosesau ariannu, fel bod cymaint â phosibl o arian ar gael ar gyfer achosion da ym maes treftadaeth.
- ymateb i **flaenoriaethau polisi ym mhedair gwlad** y Deyrnas Unedig.
- parhau i **ysgogi buddsoddiadau ac arloesi** mewn amrywiol feysydd polisi megis amrywiaeth a chynhwysiant, digidol, gwydnwch a chyllid heb fod yn grantiau, cymhelliant tawel a dylanwad rhyngwladol.

Mae'r argymhellion o'r Adolygiad wedi'i Deilwra wedi'u cynnwys yng nghwestiynau ein hymgynghoriad lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r amgylchedd gweithredu ar gyfer treftadaeth y Deyrnas Unedig yn dal i fod yn ansicr ac yn anwadal. Gyda llai o arian cyhoeddus ar gael, mae'r gystadleuaeth am grantiau CDL wedi cynyddu. Mae hyn yn cyd-fynd â gostyngiad diweddar yn incwm y Loteri Genedlaethol, ers yr uchafbwyntiau hanesyddol yn 2015 a 2016. Rydym yn gweithio'n galed gyda gweithredwr y Loteri Genedlaethol, Camelot a Dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i roi sylw i achosion hyn. Bydd ein Fframwaith Ariannu Strategol nesaf yn ein galluogi i ymateb yn hyblyg i newidiadau yn ein hincwm. Ar gyfer y flwyddyn drosiannol 2018–2019 byddwn yn gweithredu gyda chyllideb grant o tua £190m. Byddwn hefyd yn cymryd camau i reoli

¹ <https://cymraeg.hlf.org.uk/heritage-lottery-fund-2019-%E2%80%93-planning-future>

² <https://www.gov.uk/government/publications/tailored-review-of-the-heritage-lottery-fund-and-national-heritage-memorial-fund>

cystadleuaeth a chwtdgi i'r eithaf y gwaith y mae angen i ymgeiswyr ei wneud cyn gwybod a oes gan eu cais obaith realistig o lwyddo.

Rhwng 2019 a 2024 byddwn yn gwneud buddsoddiad anferthol yn nhreftadaeth y Deyrnas Unedig - ar sail y rhagolygon presennol, bydd yn oddeutu £1 biliwn dros 5 mlynedd.

Mae'n holl bwysig inni gael clywed eich barn chi am beth ddylai ein blaenoriaethau fod - i dreftadaeth a phobl.

Sut i gymryd rhan yn ein hymgyngoriad

Diolch ichi am ddod i wefan ein hymgyngoriad, sydd ar agor tan 22 Mawrth 2018.³

Rydym yn gobeithio clywed oddi wrth amrywiaeth eang o sefydliadau ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd yr hyn a ddywedwch wrthym yn ein helpu i benderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiadau'r Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth rhwng 2019 a 2024.

Mae'r holiadur hwn yn rhoi sylw i amrediad eang o destunau a meysydd polisi sy'n ymwneud â buddsoddiadau'r Loteri Genedlaethol yn nhreftadaeth y Deyrnas Unedig.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Alice Ralston yn ComRes
alice.ralston@comresglobal.com neu ar 0207 871 8660.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau'r arolwg hwn ac ar ein camau nesaf i ddatblygu'r Fframwaith Ariannu Strategol yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Lle bo angen, byddwn yn cynnal camau ymgynghori pellach wrth inni lunio manylion ein cynigion newydd. Byddwn yn lansio'r Fframwaith Ariannu Strategol yn yr hydref ac yn goruchwyllo'r trawsnewid i raglenni ariannu newydd o hynny ymlaen, gyda'r penderfyniadau cyntaf yn cael eu gwneud yn 2019.

I gael gwybod mwy am Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'r effaith a gafodd 23 mlynedd o fuddsoddiadau mewn treftadaeth gan y Loteri Genedlaethol, cliciwch yma⁴.

Diolch i chi am gymryd yr amser i roi eich barn i ni.

³ <https://www.hlf.org.uk/about-us/news-features/time-speak-out-hlf%E2%80%99s-future>

⁴ <https://www.hlf.org.uk/about-us>

Amlinelliad O'r arolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys 6 adran a 19 o feysydd cwestiynau:

RHAN 1: Rôl CDL yn awr ac i'r dyfodol

RHAN 2: Blaenoriaethau strategol ar gyfer treftadaeth a phobl, a mesur ein heffaith

RHAN 3: Ymyraethau strategol a phartneriaethau

RHAN 4: Ein portffolio

RHAN 5: Gwella'r profiad i gwsmeriaid

RHAN 6: Sylwadau terfynol, adolygu a chyflwyno

Nid oes raid ichi ateb bob cwestiwn. Cewch adael cwestiynau neu adrannau cyfan os ydynt yn llai perthnasol neu o lai o ddiddordeb i chi.

Amdanoch Chi

Rydym yn gofyn am ychydig o fanylion amdanoch chi er mwyn i ni allu deall eich sylwadau yng nghyd-destun eich profiad o dreftadaeth a CDL. Os hoffech chi i ni adrodd yn ôl i chi ar gasgliadau'r ymgynghoriad, nodwch gyfeiriad e-bost cyfredol.

Beth yw eich enw?

- Mae'n well gen i beidio â dweud

Beth yw eich cyfeiriad e-bost? Os yn berthnasol, rhwch eich e-bost proffesiynol.

- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Nid oes gen i gyfeiriad e-bost

Ysgrifennwch yn y blwch isod enw'r sefydliad rydych chi'n gweithio iddo.

- Mae'n well gen i beidio â dweud
- Amherthnasol

Ysgrifennwch yn y blwch isod god post y lleoliad lle'r rydych chi'n gweithio'n bennaf. Gofynnwn hyn i sicrhau ein bod yn siarad â phobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig.

- Ddim yn gwybod
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo ar hyn o bryd? (Naill ai cyflogedig neu wirfoddol)

- Grŵp cymunedol neu wirfoddol
- Elusen neu sefydliad trydydd sector
- Awdurdod lleol
- Corff neu adran i'r llywodraeth
- Sefydliad sector cyhoeddus arall
- Sefydliad ffydd neu eglwysig
- Sefydliad sector preifat
- Amherthnasol - rwy'n gweithio'n llawrydd/rwy'n ymgynghorydd hunan-gyflogedig
- Arall, nodwch:

A ydych chi'n gweithio gyda neu'n cynrychioli unrhyw rai o'r meysydd treftadaeth canlynol?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Archaeoleg
- Archifau
- Treftadaeth gymunedol
- Adeiladau hanesyddol (gan gynnwys safleoedd treftadaeth ddiwydiannol)
- Pethau anghyffwrdd (e.e. traddodiadau diwylliannol, atgofion pobl, tafodieithoedd)
- Llyfrgelloedd
- Treftadaeth forol a thrafnidiaeth
- Amgueddfeydd
- Treftadaeth naturiol (gan gynnwys tirweddau)
- Parciau cyhoeddus
- Addoldai
- Arall, nodwch:

- Nid wyf fi yn gweithio gyda nac yn cynrychioli unrhyw feysydd treftadaeth

A fyddech yn dweud bod eich rôl

- Yn seiliedig ar dreftadaeth yn bennaf
- Yn seiliedig ar dreftadaeth yn rhannol
- Ddim yn seiliedig ar dreftadaeth.

Yn fras, faint o weithwyr cyflogedig (cyfateb i amser llawn) sydd yn eich sefydliad?

- 0
- 1-5
- 6-10
- 11-20
- 21-50
- 51-100
- 101-500
- 501+
- Ddim yn gwybod

Ym mha rai o'r rhanbarthau canlynol o'r Deyrnas Unedig ydych chi'n gweithio? *Dewiswch bob un sy'n berthnasol.*

- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Dwyrain Lloegr
- Llundain
- De-ddwyrain Lloegr
- De-orllewin Lloegr
- Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Gogledd-orllewin Lloegr
- Swydd Gaerefrog a'r Humber
- Pob rhanbarth yn Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Pob un o'r rhain

Nodwch ai eich barn bersonol chi, ynteu ymateb swyddogol eich sefydliad, yw eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

- Fy marn bersonol
- Ymateb swyddogol fy sefydliad

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich profiad o ymgeisio am grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL)?

- Y sefydliad yr wyf/yr oeddwn i'n gweithio iddo wnaeth ymgeisio am grant gan CDL
- Roeddwn yn gweithio fel ymgynghorydd allanol i sefydliad ar y cais am grant
- Rwyf wedi ymgeisio am grant gan CDL fel unigolyn
- Nid wyf erioed wedi ymwneud ag ymgeisio am grant gan CDL

Yn y 5 mlynedd diwethaf, yn fras, faint o grantiau CDL ydych chi wedi ymgeisio amdanynt? Os yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch y ffigur hwn. Rhowch nifer y grantiau yr ymgeisiwyd amdanynt yn y blwch isod.

Ddim yn gwybod/ ddim yn cofio

Faint oedd gwerth y grantiau yr ymgeisioch amdanynt? Ysgrifennwch nifer y grantiau yr ymgeisiwyd amdanynt ym mhob band gwerth. Os nad oes cais yn syrthio i fand gwerth penodol, ysgrifennwch 0.

Dan £10,000	
£10,000 – £100,000	
£100,000 – £1m	
£1m – £2m	
£2m – £5m	
£5m+	

Ddim yn gwybod/ ddim yn cofio

A faint o'r o grantiau oedd yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus, neu sy'n aros canlyniad? Nodwch y nifer yn y categori cyfatebol.

	<i>Llwyddiannus</i>	<i>Aflwyddiannus</i>	<i>Yn aros canlyniad</i>	<i>Ddim yn gwybod</i>
Dan £10,000				
£10,000 – £100,000				
£100,000 – £1m				
£1m – £2m				
£2m – £5m				
£5m+				

Rhan 1: Rôl CDL yn awr ac i'r dyfodol

Er 1994 pan roddwyd cyfrifoldeb i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol am ddsbarthu incwm y Loteri Genedlaethol ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer achos da treftadaeth, mae CDL wedi dosbarthu dros £7.6 biliwn i dros 40,000 o brosiectau.

Drwy wneud hynny dros 23 mlynedd rydym wedi arwain newid ac arloesi ledled y sector treftadaeth yn y Deyrnas Unedig drwy ein hymagwedd gynhwysol a blaengar at dreftadaeth a phobl. Rydym wedi hyrwyddo golwg ddemocrataidd ar dreftadaeth fel "yr hyn yr ydym yn ei werthfawrogi o'r gorffennol ac eisiau ei gyflwyno i'r dyfodol", gan ganiatáu i bobl ddiffinio'r hyn y maen nhw'n ei ystyried sy'n dreftadaeth a pham, ac wedi meithrin ymagwedd sy'n cael ei hysgogi gan y gymuned at dreftadaeth leol a hunaniaeth.

Bellach, rydym mewn sefyllfa unigryw fel yr ariannwr un-pwrpas mwyaf i dreftadaeth y Deyrnas Unedig. Drwy ein buddsoddiadau a'n dylanwad mae gennym rôl bwysig, arweiniol yn y byd treftadaeth. Awgrymodd rhanddeiliaid yn ein trafodaethau diweddar yn yr Adolygiad wedi'i Deilwra y dylem gydnabod hyn yn fwy rhagweithiol.

Credwn fod sawl ffordd o ddangos arweinyddiaeth, ac y bydd yna bob amser lawer o 'arweinwyr' ar draws y byd treftadaeth. Bydd CDL yn parhau i hyrwyddo golwg unedig ar ein treftadaeth yn ei holl amrywiaeth – naturiol, adeiledig, diriaethol ac anniriaethol – ar draws y Deyrnas Unedig.

Yn ystod ein Fframwaith Ariannu Strategol nesaf, byddwn yn darparu arweinyddiaeth agweddau gadarn, gan alluogi cefnogaeth a buddsoddiadau. Byddwn yn parhau i eirioli dros yr effaith a'r manteision a gaiff cymdeithas drwy dreftadaeth, ac yn ymdrechu i sicrhau buddsoddiadau a chefnogaeth oddi wrth eraill i gryfhau'r sefyllfa hon drwy:

- feithrin partneriaethau a chydweithrediadau strategol
- denu cymorth ariannol cyhoeddus neu breifat arall ar gyfer treftadaeth
- cefnogi gallu a chadernid y sector treftadaeth drwyddo draw
- rhannu'r hyn a ddysgir
- eirioli dros werth treftadaeth
- cefnogi sefydliadau yn y byd treftadaeth a thu hwnt i ddod ynghyd, cydweithredu a rhwydweithio
- ysbrydoli a hyrwyddo arloesedd
- helpu pobl a chymunedau i gyflawni eu dyheadau

Rydym yn awyddus i symud o fod y rhoddwr grant penodedig mwyaf treftadaeth y Deyrnas Unedig i fod y buddsoddwr penodedig mwyaf – gan ddefnyddio incwm y Loteri Genedlaethol fel grantiau, benthyciadau neu ymyriadau ariannol eraill lle byddant yn ymateb orau i anghenion strategol ac yn creu'r budd mwyaf i gymdeithas yn y tymor hir. Byddwn yn bartner cydweithredol, gan ddatblygu perthnasoedd strategol ar raddfa, er enghraifft ym maes creu lleoedd.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo arloesi mewn modelau busnes, ac yn meithrin gallu, sgiliau a gwytnwch sefydliadau sy'n gweithio mewn treftadaeth i'w galluogi i arallgyfeirio eu hincwm a denu buddsoddiad newydd. Trwy ein harweinyddiaeth, buddsoddiad a chefnogaeth, byddwn yn aneli at alluogi'r byd treftadaeth i fesur ac arddangos ei effaith a gwerth i gymdeithas yn well.

Byddwn yn parhau i fod â rôl alluogi a grymusol, gan ddarparu adnoddau a buddsoddiad ble gall eraill gyflawni eu huchelgeisiau ar gyfer treftadaeth a phobl.

Byddem yn disgrifio'r datblygiad hwn o'n rôl fel symud o:

- ddosbarthu arian a gesglir gan y Loteri Genedlaethol i wneud gwahaniaeth parhaus ar gyfer treftadaeth a phobl yn y Deyrnas Unedig.

Tuag at:

- ysbrydoli, arwain a darparu treftadaeth y Deyrnas Unedig i greu newid positif a pharhaus ar gyfer pobl a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Ynghylch rôl CDL

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai rôl CDL yn y dyfodol fod i ysbrydoli, arwain a darparu treftadaeth yn y Deyrnas Unedig i greu newid positif a pharhaus i bobl a chymunedau?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Gan feddwl am y gwahanol agweddau o rôl CDL, ar wahân i roi grantiau, dewiswch a graddiwch hyd ast 5 yr ystyriwch i fod fwyaf pwysig i CDL wneud.

- Meithrin partneriaethau a chydweithrediadau strategol
- Denu cymorth ariannol cyhoeddus neu breifat arall ar gyfer treftadaeth
- Cefnogi gallu a chadernid y sector treftadaeth drwyddo draw
- Rhannu'r hyn a ddysgir
- Eirioli dros werth treftadaeth
- Cefnogi sefydliadau yn y byd treftadaeth a thu hwnt i ddod ynghyd, cydweithredu a rhwydweithio
- Ysbrydoli a hyrwyddo arloesedd mewn modelau busnes
- Helpu pobl a chymunedau i gyflawni eu dyheadau

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Rhan 2: Blaenoriaethau strategol ar gyfer treftadaeth a phobl, a mesur ein heffaith

Cefnogi'r amrediad llawn o dreftadaeth

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) wedi datblygu ymagwedd nodweddiadol i greu 'gwahaniaeth parhaus ar gyfer treftadaeth a phobl' ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae'r weledigaeth a chyfeiriad cyffredinol yma wedi eu cefnogi'n helaeth gan randdeiliaid a'r cyhoedd mewn nifer o ymgynghoriadau blaenorol. Yn benodol, dywedodd chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith fod CDL yn dilyn ymagwedd gynhwysol, nad yw'n diffinio treftadaeth a'i fod yn cefnogi'r amrediad llawn o dreftadaeth ar draws y Deyrnas Unedig.

Nid oes gennym unrhyw fwriad i newid hyn – ond fe hoffem glywed gennych chi beth ddylai ein blaenoriaethau fod ar gyfer y gwahanol fathau o dreftadaeth ac mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.

TR5 Yn ei Fframwaith Ariannu Strategol nesaf, dylai CDL:

- a. egluro ei flaenoriaethau strategol ei hun, esbonio sut y nodir y blaenoriaethau hynny ac arddangos sut y defnyddir gwerthuso ac ymchwil i hysbysu'r rhain
- b. mynegi ei strategaeth ar gyfer cyrraedd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac 'Ardaloedd Datblygu Blaenoriaeth' daeryddol

c. amlinellu sut mae'n ymateb i flaenoriaethau yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, o fewn fframwaith y Deyrnas Unedig gyfan

Beth ydych chi'n feddwl yw'r anghenion neu gyfleoedd treftadaeth pwysicaf yn y Deyrnas Unedig y dylai buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol eu taclo yn y Deyrnas Unedig?

A beth ydych chi'n feddwl yw'r anghenion neu gyfleoedd treftadaeth pwysicaf yn y Deyrnas Unedig y dylai buddsoddiad gan y Loteri Genedlaethol eu taclo yn eich rhanbarth neu wlad?

A ddylai CDL roi blaenoriaeth i dreftadaeth a ystyrir i fod 'dan risg'?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

A sut fyddech chi'n diffinio treftadaeth sydd 'dan risg'? Rhowch gymaint o fanylion â phosibl yn eich ateb.

Sut ddylai CDL ystyried y gwahanol flaenoriaethau ar gyfer treftadaeth yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban o fewn fframwaith y Deyrnas Unedig gyfan?

Delio â diffyg cynrychiolaeth yng nghyllid CDL a gwneud treftadaeth yn fwy cynhwysol

Ers 2002 mae CDL wedi cynnig **cefnogaeth allgymorth** i grwpiau mewn ardaloedd a chymunedau sydd wedi elwa lleiaf o gyllid CDL. Rydym yn bwriadu parhau i flaenoriaethu datblygiad cefnogaeth i bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein cyllid fel eu bod yn cael yr help maent angen i ddatblygu ceisiadau.

Ers 2013 rydym wedi lleihau'r nifer o ardaloedd Awdurdod Lleol sydd wedi derbyn llai na 25% o gyllid y pen ar gyfartaledd o 61 i 56, gan awgrymu elfen o lwyddiant o ran cyflawni lledaeniad mwy cyfartal o gyllid. Rydym hefyd wedi cefnogi ystod eang o grwpiau cymunedol i wneud ceisiadau llwyddiannus. Rhaid i ni wneud mwy.

TR19

Gan adeiladu ar ddysgu hyd yma, dylai CDL ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer ymgysylltu gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gyda threftadaeth, i sicrhau bod arian y Loteri Genedlaethol yn dod â manteision i gynulleidfa mor eang ac amrywiol â phosibl. Dylai CDL wneud y gorau o fanteision offer digidol i gyflawni'r nod hon o ehangu mynediad.

TR20

Dylai CDL sicrhau bod prosiectau a ariennir yn casglu data ar y gynulleidfa i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o bwy sy'n ymgysylltu gyda'r prosiectau mae'n eu hariannu ar hyn o bryd, ac i sicrhau ei gynnydd o ran ehangu ac arallgyfeirio cyfranogiad cynulleidfaoedd.

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CDL daclo diffyg cynrychiolaeth yn ein hariannu o ardaloedd daearyddol sydd wedi derbyn y swm lleiaf o gyllid yn y gorffennol?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CDL daclo diffyg cynrychiolaeth yn ein hariannu o ardaloedd daearyddol sy'n profi amddifadedd?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Rydym yn parhau i symud ymlaen gyda'n hagenda cynyddol o ehangu amrywiaeth a dwyster ymgysylltiad pobl gyda threftadaeth. Mae ein Fframwaith Strategol cyfredol wedi annog mwy o bobl i wirfoddoli, i ddysgu ac i ddatblygu sgiliau. Mae arweiniad a mentora wedi helpu ymgeiswyr i ehangu cynulleidfaoedd, i wneud treftadaeth yn fwy hygyrch ac i daclo'r diffyg amrywiaeth yn y gweithlu. Ond mae mwy i'w wneud o hyd i gynnwys pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn treftadaeth, megis pobl o gymunedau duon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Rydym yn ymroddedig i arwain er mwyn cyflawni lefelau uwch o gynhwysiant mewn treftadaeth, sy'n allweddol i gymdeithas ffyniannus fwy cyfartal. Fe wyddom ei bod yn flaenoriaeth i chwaraewyr y Loteri y dylai pawb, waeth beth yw eu hoed, anabledd, ethnigrwydd, rhywioldeb, dosbarth neu incwm gael cyfleoedd i gymryd rhan. Mae gweithio mewn partneriaeth â sectorau tu allan i dreftadaeth, e.e. Gyda sefydliadau ieuencid neu elusennau anabledd neu dai, yn gynyddol bwysig yn y cyd-destun hwn.

Byddwn yn gosod disgwyliadau clir y dylai'r sefydliadau y rhoddwn grantiau iddynt a buddiolwyr y prosiectau a ariennir gennym adlewyrchu demograffeg y boblogaeth ar draws y Deyrnas Unedig yn fwy. Byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n derbyn grantiau gennym i gasglu gwell data ar pwy sydd – a phwy nad yw – yn ymgysylltu gyda threftadaeth.

Y grwpiau cymdeithasol yn y rhestr isod yw'r rhai y byddwn yn canolbwyntio arnynt, yn unol 2'n cyfarwyddiadau polisi a Dyletswyddau Cydraddoldeb y sector cyhoeddus. A oes yna grwpiau yr ystyriwch y dylem eu blaenoriaethu y ein Fframwaith Ariannu Strategol?

Dewiswch bob un cymwys.

- Plant (dan 11)
- Pobl ifanc (11–25 oed)
- Pobl hŷn (dros 65 oed)
- Pobl anabl
- Pobl o gymunedau Duon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywedol
- Pobl ar incwm isel/budd-daliadau
- Ni ddylai CDL flaenoriaethu grwpiau cymdeithasol ei Fframwaith Ariannu Strategol nesaf
- Arall:

Sut allai CDL ymateb i unrhyw rwystrau penodol y gwyddoch mai'r grwpiau hyn yn wynebu wrth wneud cais am gyllid i gefnogi treftadaeth eu cymuned?

Sut allai CDL ymateb i unrhyw rwystrau penodol y gwyddoch mae'r grwpiau hyn yn wynebu wrth geisio mynediad i gyfleoedd treftadaeth?

Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol i CDL gefnogi'r holl sefydliadau i gyrraedd ystod ehangach o fuddiolwyr?

Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol i CDL gefnogi sefydliadau'n well i gasglu gwell data ar bwy sy'n elwa o brosiectau treftadaeth?

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Cyflawni ansawdd a mesur ein heffaith

Yn 2013 fe gyflwynom fframwaith deilliannau sy'n ffurfio rhan o'n proses asesu a gwneud penderfyniadau, i'n helpu i wneud dyfarniadau cymharol o brosiectau, ynghyd â'n barn o achos busnes, risg a gwerth am arian yr ymgeisydd. Mae hyn wedi gweithio'n dda o ran cefnogi'r ymgeiswyr i ystyried yn ofalus faint o wahaniaeth maent eisiau ei wneud i dreftadaeth a phobl, gan ddarparu'r sail ar gyfer gwerthusiadau prosiect o safon uwch a thystiolaeth o effaith. Byddwn yn parhau i ofyn i ymgeiswyr gynhyrchu cynigion trylwyr ar gyfer gwerthusiad ac i gyllidebu'n realistig ar gyfer hyn yn rhan o'u grant.

Ar gyfer ein Fframwaith Ariannu Strategol nesaf, byddwn yn gwneud rhai newidiadau i'r ystod bresennol o ddeilliannau yr ydym yn disgwyl i'n cyllid gyflawni, ac yn gosod thai amcanion corfforaethol yn gysylltiedig i'r rhain ar sail mesur effaith gyffredinol buddsoddiad y Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth.

Isod ceir rhestr o'r deilliannau yr ydym yn cynnig eu cwmpasu yn ein Fframwaith Ariannu Strategol newydd – bydd y rhain yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu cyllid ac i fesur effaith.

1. Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell
2. Bydd treftadaeth yn cael ei adnabod a'i esbonio'n well
3. Bydd pobl wedi datblygu sgiliau
4. Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth
5. Bydd gan bobl fwy o lesiant
6. Bydd yna ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth
7. Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn
8. Bydd yr ardal leol yn le gwell i fyw ynddi, gweithio ynddi neu ymweld
9. Bydd yr economi leol yn cael hwb


A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CDL ffocysu ar y naw deilliant yma?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Rydym yn cydnabod fod ein cyllid wedi darparu buddion llesiant i unigolion ers peth amser, fel y gwelir yn ein gwerthusiadau, a nawr yn bwriadu adlewyrchu hyn yn fwy penodol trwy gyflwyno deilliant 'llesiant' atodol. Mae llesiant yn dod yn gynyddol amlwg ar draws y sector ddiwylliannol, ac mae yna ddiffiniadau a mesuriadau sefydledig ar gael. Rydym eisiau cydnabod y buddion llesiant personol y mae prosiectau treftadaeth yn eu cyflawni ar gyfer y rhai gyda'r llesiant cymharol isaf.

A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut y gallai pobl wella eu llesiant trwy prosiectau treftadaeth?



Rhan 3: Ymyraethau strategol a phartneriaethau

Mae'r amgylchedd polisi a gweithredu newidiol ar gyfer treftadaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gyflwyno heriau arwyddocaol, ond mae cyfleoedd hefyd.

Rydym eisiau adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar mewn gwytnwch (Catalydd⁵ a Threftadaeth Gydnerth⁶), a llunio lle (y Cynllun Lle Arbennig⁷), ac ymyraethau eraill i uchafu effaith a rôl ehangach treftadaeth mewn cymdeithas. Rydym eisiau gweld treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn ganolog i adfywio cymdeithasol ac economaidd, a chyfleoedd a gyflwynir gan ddatblygiadau mewn technoleg ddigidol a modelau busnes a menter newydd yn cael eu cipio.

Creu lle

Mae treftadaeth yn llunio sut mae pobl yn uniaethu gyda'r llefydd ble maent yn byw, gweithio a chwarae. Ac eto, yn aml mae rôl ar gyfer treftadaeth ar goll o sgysiau a chynlluniau ar gyfer sut y gall llefydd ddatblygu i'r dyfodol, fel y gwelir yn ein hymchwil yn 2016 Networked Heritage⁸. Yn ein Fframwaith Ariannu Strategol nesaf, mae gennym ddiddordeb mewn datblygu ymagweddau newydd i gyllid seiliedig ar le a fyddai'n cynnig cyfle i gymunedau o bob math – o ganolfannau trefol mawr i ardaloedd gwledig – i roi'r dreftadaeth honno yng nghalon eu datblygiad economaidd a chymdeithasol, ac i benderfynu iddynt eu hunain sut i fuddsoddi ein cyllid i gyflawni eu nodau.

Byddai ein hymagwedd i gyllid seiliedig ar lefydd yn cwmpasu pob math o dreftadaeth, yn cynnwys y rhai a ariannwyd yn flaenorol trwy raglenni wedi eu targedu tuag at barciau, trefluniau, tirluniau a mannau addoli a gallai gynnwys ardaloedd buddsoddi newydd megis galluogi ail-ddefnyddio adeiladau hanesyddol ar gyfer tai.

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CDL ffocysu ar roi treftadaeth yn ganolog i greu llefydd ar draws y Deyrnas Unedig?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

⁵ <https://cymraeg.hlf.org.uk/catalyst-capacity-building-programme-evaluation>

⁶ <https://cymraeg.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/resilient-heritage>

⁷ <https://www.greatplacescheme.org.uk/cymru>

⁸ <https://medium.com/networked-heritage>

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Pwy fyddai'r partneriaid mwyaf priodol ar gyfer CDL a beth ddylai eu cyfraniad fod?

Treftadaeth a menter

Wedi ei lansio yn Ebrill 2013, roedd Menter Treftadaeth yn rhaglen gyllid newydd arloesol a gynlluniwyd i ysgogi twf economaidd lleol trwy ddatgloi potensial masnachol adeiladau a safleoedd treftadaeth nad oeddynt yn cael eu defnyddio. Mae dadansoddiad o'r cynlluniau mae CDL eisoes wedi cefnogi, ynghyd ag adborth gan randdeiliaid yn y sector, yn cadarnhau fod yna archwaeth i CDL wneud mwy i gefnogi potensial adfywio asedau treftadaeth nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Gallem ddilyn ymagwedd fwy masnachol, gan annog prosiectau i fod wedi eu targedu'n fwy gweithredol tuag at y sector preifat. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried a ellid ariannu prosiectau trwy fenthyciadau neu gyfuniad o fenthyciadau a grantiau, yn ddibynnol ar ddefnydd terfynol arfaethedig yr adeilad neu safle.

Gallai hefyd ganolbwyntio fwy ar dreftadaeth dan risg ac asedau hanesyddol wedi eu lleoli yn yr ardaloedd mwyaf amddifad ble mae yna fethiant clir yn y farchnad ac sy'n arddangos y potensial ar gyfer adfywio. Gallai cydweithredu gydag LEPs, Historic England a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, er enghraifft, alluogi CDL i gyflawni mwy o effaith strategol gyda phrosiectau yn adeiladu ar y model Menter Treftadaeth. Gallai hyn gynnwys prosiectau sydd, er enghraifft, yn delio â'r her arwyddocaol o dreftadaeth ddiwydiannol dan risg, neu fod â'r potensial i daclo angen am dai.

A ddylai CDL ariannu ymagweddau gyda ffocws mwy masnachol i gefnogi prosiectau gyda ffocws ar fenter a sgiliau?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch y ffordd orau i CDL weithio gyda sefydliadau eraill i gefnogi ailddefnydd dichonadwy o adeiladau presennol nad ydynt yn cael eu defnyddio?

Gwytnwch ac adeiladu gallu

Ers 2012, rydym wedi darparu cefnogaeth i sefydliadau yn gweithio mewn treftadaeth i ymgymryd â'r heriau a gyflwynir oherwydd lleihad mewn cyllid cyhoeddus. Mae'r rhain wedi cynnwys rhaglenni meithrin gallu ar gyfer cynhyrchu incwm, sgiliau llywodraethu a chodi arian, cyllid yn y camau cynnar i sefydliadau newydd, cyllid trosiannol ar gyfer derbynyddion grantiau blaenorol i adolygu cynlluniau busnes, cyfarwyddyd llywodraeth a strategol, ac ymyraethau i adeiladu gwaddolion a chynyddu rhoddion preifat i dreftadaeth.

Rydym yn ymroddedig i helpu sefydliadau i addasu i'r cyd-destun ariannol a gweithredu ansicr cyfredol. Rydym eisiau cefnogi sefydliadau i feithrin gwytnwch ac ymagweddau menter, datblygu ffynonellau incwm newydd, cynyddu cyllid preifat, adeiladu sgiliau busnes a rheolaeth ariannol, ac i fod yn barod i ymateb i gyfleoedd a gyflwynir gan ffynonellau cyllid ac arloesiadau digidol newydd. Wrth fuddsoddi yng ngwytnwch sefydliadau, byddwn yn parhau i flaenoriaethu diogelu buddsoddiad blaenorol y Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth.

Beth yw'r ffordd orau i CDL gefnogi sefydliadau treftadaeth ar draws y Deyrnas Unedig i fod yn fwy mentergar ac ariannol gynaliadwy? Dewiswch a graddiwch tair prif ffordd yr ystyriwch y gallai CDL wneud hyn.

- Darparu cyllid i sefydliadau unigol a chyflawni newid sefydliadol strategol
- Darparu cyllid yn y camau cynnar i gefnogi sefydliadau a mentrau newydd i osod eu cyfeiriad
- Darparu cyllid ar raddfa fach i helpu sefydliadau adeiladu eu gallu a sgiliau codi arian
- Darparu cyllid i brofi syniadau newydd, megis hyfywedd weithgaredd masnachol newydd
- Ariannu hyfforddiant cefnogaeth busnes a rhaglenni meithrin gallu, yn cynnwys mewn parodrwydd buddsoddiad
- Arall, nodwch:
- Ni ddylai CDL gefnogi sefydliadau treftadaeth i fod yn fwy mentergar ac ariannol gynaliadwy

Pam ydych chi wedi dewis y rhain fel eich tri phrif ddewis?

Cyllid nad yw'n gyllid grant

Rydym yn gweld cyfleoedd i wneud i fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol fynd yn bellach ac adeiladu gallu'r sector treftadaeth trwy gynnig cyfran o'n cyllid fel grantiau, benthyciadau neu fathau eraill o fuddsoddiad cymdeithas y gellir eu had-dalu (buddsoddiad sy'n gofyn am elw cymdeithasol ac ariannol) ble fo'n briodol – er enghraifft, ble gall sefydliadau greu incwm o'u prosiect CDL neu os yw angen cyfalaf gweithio. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth a chefnogaeth mewn parodrwydd buddsoddiad i alluogi mwy o sefydliadau i gael y sgiliau ariannol ac eraill sydd angen i ddefnyddio cyllid ad-daladwy.

Gallem hefyd ddefnyddio ein buddsoddiad i ddenu cyllid atodol ar gyfer treftadaeth gan eraill, er enghraifft, trwy fodel 'Cronfa Effaith' ble ychwanegir at fuddsoddiad CDL gyda

chyllid gan eraill, wedi ei ddsbarthu fel benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti.
Disgwyliwn brofi rhai ymagweddau ar hyn yn y dyfodol agos.

TR25

Dylai CDL archwilio a fyddai opsiynau amgen i roi grantiau pur yn cefnogi cynaliadwyedd y sector. Dylai DCMS, DEFRA, DCLG a'r gweinyddiaethau datganoledig weithio gyda CDL wrth ddatblygu mecanweithiau codi arian amgen, i gefnogi defnydd o'r opsiynau newydd ble fo'n briodol.

Beth yw profiad eich sefydliad o gyllid nad yw'n gyllid grant (e.e. Benthyciadau, buddsoddiadau ecwiti, cyllido torfol)? Dewiswch y disgrifiad sy'n adlewyrchu orau eich safbwynt cyfredol.

- Rydym eisoes yn defnyddio cyllid nad yw'n gyllid grant yn rhan o'n cyfuniad o gyllid
- Rydym yn bwriadu cymryd cyllid nad yw'n gyllid grant yn y dyfodol agos
- Rydym yn y camau cynnar o archwilio cyllid nad yw'n gyllid grant
- Nid oes gennym brofiad o cyllid nad yw'n gyllid grant, ond mae gennym ddiddordeb mewn ei archwilio
- Nid oes gennym brofiad o gyllid nad yw'n gyllid grant, ac nid oes gennym ddiddordeb mewn ei archwilio
- Roeddem eisieu archwilio cyllid nad yw'n gyllid grant, ond nid oeddem yn gallu nodi ffyrdd o'i ad-dalu
- Rydym wedi archwilio cyllid nad yw'n gyllid grant ond wedi penderfynu peidio ei ddefnyddio

Beth, os o gwbl, fyddai'n gwneud eich sefydliad yn fwy tebygol o ddefnyddio cyllid nad yw'n gyllid grant fel benthyciadau neu fuddsoddiad ecwiti? Dewiswch bob un cymwys.

- Gwell gwybodaeth neu sgiliau mewn rheolaeth ariannol a chynllunio busnes
- Gwell gwybodaeth neu sgiliau mewn mesur effaith
- Cael ffynhonnell incwm y gallem ei defnyddio i ad-dalu benthyciad
- Mwy o hyder ymysg ymddiriedolwyr ynghylch lefelau risg
- Mwy o hyblygrwydd o ran pa fathau o brosiectau y gallwn gael cyllid ar eu cyfer
- Mynediad at gronfeydd a gynlluniwyd ar gyfer treftadaeth ac/neu sefydliadau diwylliannol
- Cyfraddau ffafriol
- Nid oes gennym unrhyw angen i ddefnyddio cyllid nad yw'n gyllid grant ar hyn o bryd
- Arall, nodwch

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Pa gefnogaeth, os o gwbl fyddai fwyaf defnyddiol i'ch sefydliad i'ch helpu i gael mynediad at gyllid nad yw'n gyllid grant? *Dewiswch a graddiwch eich 3 uchaf.*

- Cefnogaeth meithrin gallu mewn rheolaeth ariannol a chynllunio busnes
- Cefnogaeth meithrin gallu mewn mesur effaith
- Cefnogaeth meithrin gallu mewn cynhyrchu incwm
- Cefnogaeth meithrin gallu ar gyfer adolygiadau llywodraethu
- Mwy o hyblygrwydd ym mha fathau o brosiectau fydd CDL yn eu hariannu
- Darparu cyllid ar gyfer prosiectau yn fel grant rhannol/benthyciad rhannol neu fuddsoddiad ecwiti
- Denu partneriaid i fuddsoddi mewn cronfeydd a gynlluniwyd ar gyfer treftadaeth ac/neu sefydliadau diwylliannol
- Arall, nodwch

- Dim un o'r rhain

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Arddangosodd ymchwil ddiweddar gan Nesta mewn partneriaeth â Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac Arts Council England fanteision ariannol ac nad ydynt yn ariannol arwyddocaol yn deillio o ymagwedd cyllido torfol gydag arian cyfatebol, ble byddai sefydliad ffel CDL yn cynnig arian cyfatebol ar gyfer unrhyw gyllid a gesglir gan y 'dorf' ar gyfer prosiectau bach a chanolig eu maint (£4000–£40,000).

A ddylai CDL ddarparu cyllid cyfatebol i sefydliadau sy'n defnyddio cyllido torfol i ennill cefnogaeth i'w prosiectau treftadaeth?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Digidol

Gall technoleg digidol helpu sefydliadau i ofalu am dreftadaeth ac i'w wneud yn hygyrch i ystod eang o bobl mewn sawl ffordd wahanol o ddigideiddio lluniau hanesyddol a sganiau laser 3D o adeiladau i fynediad ar-lein i safleoedd pell, casglu data bioamrywiaeth a chasglu straeon cymunedol torfol. Gall hefyd help sefydliadau treftadaeth i ffynnu trwy wella eu rheolaeth, marchnata, codi arian, cyfathrebu a chynnig cyhoeddus.

Mae CDL yn annog defnydd o dechnoleg ddigidol mewn unrhyw fodd sy'n helpu prosiect i gyflawni ein deilliannau; rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud i gefnogi'r maes hwn. Mae'r Adolygiad wedi'i Deilwra yn argymhell fod CDL yn gweithio'n strategol i gefnogi'r sector i ddefnyddio technoleg ddigidol yn effeithiol ac i gael mynediad at gyllid ar gyfer prosiectau digidol.

Sut allai CDL gefnogi sefydliadau'n well i ddefnyddio technoleg ddigidol i...

- a) Creu a darparu cynnwys digidol o safon

Ddim yn gwybod

- b) Cynyddu ymgysylltu gyda threftadaeth

Ddim yn gwybod

- c) Arallgyfeirio cynulleidfaoedd ar gyfer treftadaeth

Ddim yn gwybod

- d) Gwneud treftadaeth yn fwy cynhwysol

Ddim yn gwybod

- e) Cynyddu effeithlonrwydd a gwytnwch sefydliadol

Ddim yn gwybod

f) Adeiladu llythrennedd digidol staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr/llywodraethwyr

Ddim yn gwybod

Sut allai CDL helpu sefydliadau i sicrhau bod eu cynnwys digidol yn hygyrch i'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol?

Sut allai CDL gefnogi arloesi o ran defnydd o dechnoleg ddigidol gan sefydliadau sy'n gofalu am dreftadaeth ac yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd gyda hyn?

Rhyngwladol

TR13

Dylai CDL gefnogi'r prosiectau a sefydliadau mae'n eu hariannu i hyrwyddo eu hunain a'r sector yn rhyngwladol, ac i ymgysylltu ymhellach gydag ymgyrch GREAT Britain ac ymgyrchoedd twristiaeth gan y cenhedloedd datganoledig.

Rydym yn edrych ar beth allwn ni ei wneud i gefnogi'r sector i fanteisio ar gyfleoedd newydd ar gyfer twf a gwranddo. Gellir sicrhau cyfleoedd newydd trwy ehangu ymgysylltu rhyngwladol a chyrraeddian byd eang sector treftadaeth y Deyrnas Unedig. Yn 2017, ar y

cyd â'r Cyngor Prydeinig, fe ddaethom ag arweinyddion ac ymarferwyr treftadaeth a thwristiaeth ynghyd i drafod ein rôl bosibl o ran cefnogi ymgysylltu rhyngwladol. Mae gennym ddiddordeb yn y rôl sydd gennym o ran cefnogi sefydliadau treftadaeth i hyrwyddo eu hunain a'r sector yn rhyngwladol, i gyfnewid gwybodaeth a chefnogi ymgyrchoedd twristiaeth.

Sut allai CDL gefnogi'r sector treftadaeth i ymgysylltu'n rhyngwladol ac i gyflawni buddion i'r Deyrnas Unedig? *Dewiswch bob un cymwys.*

- Cefnogaeth ar gyfer sefydliadau treftadaeth y Deyrnas Unedig i hyrwyddo eu hunain yn rhyngwladol
- Cefnogaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyda sefydliadau tramor
- Gweithio'n strategol gyda phartneriaid i ddatblygu twristiaeth i'r wlad a arweinir gan dreftadaeth
- Arall, nodwch

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Cynnwys y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau

Rydym eisoes yn cyflawni recriwtio agored ar gyfer rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar ein Bwrdd a phwyllgorau rhanbarthol a gwlad ac yn gofyn i brosiectau arddangos sut maent wedi cynnwys eu cymuned leol a phartneriaid eraill yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau. Wrth agor y broses o wneud penderfyniadau i amrediad ehangach o bobl, bydd angen i ni gydbwysu'r adnoddau sy'n ofynnol i wneud hyn gyda'r manteision i brosiectau, CDL a chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Mae nifer o opsiynau y gallent eu harchwilio.

Un o gasgliadau ein hymgyngghoriad gyda Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol oedd archwaeth a brwdfrydedd cryf gan y cyhoedd i gael eu cynnwys yn ein gwaith a'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi fel cynulleidfaoedd, cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a phenderfynyddion.

Roedd yna hefyd gefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn 'broffesiynol'. Ynghyd â hyn, y neges fwyaf gyffredin oedd ynghylch cynnwys cymunedau a phobl leol hefyd a fyddai'n elwa o benderfynu ar beth sy'n cael ei ariannu. Roedd casgliadau hefyd yn amlygu

pwysigrwydd gwneud penderfyniadau gyda mewnbwn gan bobl o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau.

A ddylai CDL gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau?

- Dylai
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Pa opsiynau i gynnwys y cyhoedd mewn Cyllid y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiectau treftadaeth ddylai CDL archwilio? *Dewiswch bob un cymwys.*

- Cynnwys cymunedau (daearyddol neu gymunedau o ddiddordeb) wrth osod blaenoriaethau ar gyfer cyllid CDL
- Cynnwys cymunedau lleol wrth benderfynu ar gyllid mewn ardal ddaearyddol benodol trwy e.e. panel y bobl
- Gwaith partneriaeth gyda sefydliadau cymunedol sy'n creu grantiau i ddarparu grantiau trwyddynt
- Cael cynrychiolaeth i grwpiau buddiant ar baneli gwneud penderfyniadau ar gyfer cyllid targedig e.e. i bobl ifanc
- Cynnwys chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn dosbarthu arian yn eu hardal leol ac/neu yn genedlaethol trwy bleidlais gyhoeddus ar brosiectau yn gysylltiedig i brynu tocynnau
- Pleidlais gyhoeddus yn gysylltiedig i raglen deledu neu gynnwys ar-lein
- Arall, nodwch

A pha lefel o grant ddylen ni ei ystyried ar gyfer hyn?

	Dan £10k	£10k – £250k	£250k – £2m	Dros £2m
Cynnwys cymunedau (daearyddol neu gymunedau o ddiddordeb) wrth osod blaenoriaethau ar gyfer cyllid CDL				
Cynnwys cymunedau lleol wrth benderfynu ar gyllid mewn ardal ddaearyddol benodol trwy e.e. panel y bobl				
Gwaith partneriaeth gyda sefydliadau cymunedol sy'n creu grantiau i ddarparu grantiau trwyddynt				
Cael cynrychiolaeth i grwpiau buddiant ar baneli gwneud penderfyniadau ar gyfer cyllid targedig e.e. i bobl ifanc				
Cynnwys chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn dosbarthu arian yn eu hardal leol ac/neu yn genedlaethol trwy bleidlais gyhoeddus ar brosiectau yn gysylltiedig i brynu tocynnau				
Pleidlais gyhoeddus yn gysylltiedig i raglen deledu neu gynnwys ar-lein				

Rhan 4: Ein Portffolio

Ein portffolio

Rydym yn ymroddedig i wella ein proses ymgeisio ac i'w gwneud yn haws i bobl ymgeisio am grantiau ar gyfer pob math o dreftadaeth. Rydym eisiau i'n FfAS nesaf fod yn hyblyg ac i'n galluogi i ymateb yn gyflym i feysydd angen a chyfle newydd wrth iddynt godi.

Disgwylwn gynnig cyfleoedd cyllido agored ar gyfer unrhyw fath o dreftadaeth, gyda grantiau yn cychwyn dan £10,000 yn ogystal ag:

- Ymgyrchoedd strategol, a allai fod ar draws y Deyrnas Unedig neu'n lleol, ble gosodir terfynau amser, i ddenu ceisiadau ar gyfer mathau o brosiectau sydd ar goll o'n portffolio
- Mentrau partneriaeth, yn cynnwys cyllid nad yw'n gyllid grant, ar faterion megis creu lle, fel y sefydlwyd yn rhan 3;
- Cronfeydd arloesi, a allai fod yn ymyraethau partneriaeth ar raddfa fechan i brofi syniadau ac ysgogi cynnydd mewn meysydd megis datblygu modelau busnes newydd.

Bydd hyn yn lleihau'r nifer o raglenni grant unigol a gynigiwn, a fydd yn ein galluogi i ddarparu llwybrau mwy pendant i gyllid ar gyfer ymgeiswyr.

Byddwn yn darparu arweiniad ac adnoddau newydd i gefnogi ymgeiswyr gyda phrosiectau yn canolbwyntio ar fathau penodol o dreftadaeth megis tirluniau, mannau addoli, parhau neu drefluniau, er mwyn sicrhau bod yr arfer da a gyflawnwyd trwy ein buddsoddiad hyd yma wedi ei fewnosod yn y rhaglen agored newydd a'n hymagwedd i greu lle yn y dyfodol.

Efallai y byddwn yn gosod gofynion penodol ar gyfer mathau penodol o brosiectau ble mae ein gwerthusiadau o fentrau strategol blaenorol yn arddangos yn glir beth sy'n gweithio ac yn cynhyrchu'r effaith fwyaf. Er enghraifft, byddem yn disgwyl i brosiectau hyfforddiant sgiliau seiliedig ar waith yn y dyfodol fod yn seiliedig ar ddysgu o Sgiliau ar gyfer y Dyfodol⁹.

Pob blwyddyn, byddwn yn adolygu'r angen am ymgyrchoedd strategol ac yn hysbysebu cyfleoedd cyllido newydd o flaen llaw er mwyn i ymgeiswyr allu cynllunio yn hyderus.

TR 14 Dylai'r CDL fewnosod dysgu o werthusiadau prosiect a rhaglen yn well ac yn fwy effeithiol i'r sefydliad, gan ddefnyddio gwersi ynghylch llwyddiannau a methiannau i hysbysu cynllunio rhaglenni, cryfhau'r cyngor a roddir i ymgeiswyr a sicrhau bod gwneud penderfyniadau yn canolbwyntio ar feithrin sector gynaliadwy.

⁹ <https://cymraeg.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/skills-future>

Y rhaglen grant agored

Ar gyfer cyllid **hyd at £10,000 ac o £10,000 hyd at £250,000** rydym yn bwriadu derbyn ceisiadau ar unrhyw adeg, ar gyfer unrhyw fath o brosiect treftadaeth.

Bydd y rhain yn geisiadau un rownd (fel nawr) gan wneud penderfyniadau ar gais o fewn oddeutu 8 wythnos.

Rydym yn cynnig cynyddu'r terfyn uchaf r gyfer ceisiadau un rownd o'r swm presennol o **£100,000 i £250,000** a fydd yn galluogi mwy o amrywiaeth o brosiectau i elwa o benderfyniad cyflymach a phrosesau ymgeisio a monitro mwy syml.

Ar gyfer grantiau **dros £250,000** byddwn yn sefydlu ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogaeth yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, er enghraifft, blaenoriaethau ar gyfer treftadaeth a phobl fel y nodwyd yn rhan 1. Disgwylwch y byddwn yn derbyn ceisiadau oddeutu bedair gwaith y flwyddyn, fel sy'n digwydd nawr.

Bydd gennym ofyniad a phrosesau cymesur ar gyfer pob un o'r lefelau grant dan y rhaglenni agored:

- Dan £10,000
- £10,000–£250,000
- Dros £250,000

A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein cynnig ar gyfer rhaglen grant agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth?

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig ein bod yn cynyddu'r terfyn uchaf ar gyfer grantiau un rownd o £100,000 i £250,000?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Ar hyn o bryd, nid oes gennym derfyn uchaf ar werth ein grantiau. Yn y Fframwaith Strategol cyfredol ers 2013 rydym wedi gwneud 20 dyfarniad dros £5m a hyd at £19.7m, ac wedi cymeradwyo 11 prosiect arall i ddatblygu eu cynigion.

Gyda chyllideb flynyddol is, a ddylai CDL sefydlu terfyn ar ddyfarniadau?

- Dylai
- Na ddylai

Faint ddylai hynny fod?

- £5 miliwn
- £10 miliwn
- £15 miliwn
- Arall


Pam ydych chi'n dweud hynny?

Cydbwysedd rhwng grantiau llai a mwy

Yn y fframwaith strategol cyfredol ers 2013 mae CDL wedi gwneud dyfarniadau yn y cyfraddau a ddangosir yn y siartiau canlynol.


Nifer o brosiectau ariannwyd

Mae'r siart yma yn dangos y gyfran o brosiectau a ariannwyd yn ôl band grant. Derbyniodd 48% o'r prosiectau a ariannwyd gennym symiau rhwng £10,000 a £100,000.



Gwerth y dyfarniad grant yn ôl swm

Mae'r siart yma yn dangos cyfranau ein cyfanswm cyllid, yn ôl band grant. Aeth 53% o'n cyllid grant i brosiectau gyda grant o £2m neu fwy.



Sut ddylai CDL sicrhau cydbwysedd o gynnig dyfarniadau mwy a llai?

- Dylai CDL flaenoriaethu buddsoddiad mewn grantiau llai (dan £250,000)
- Dylai CDL roi'r un faint o bwysau i grantiau mawr a bach
- Dylai CDL flaenoriaethu buddsoddiad mewn grantiau mwy (dros £250,000)

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Ymgyrchoedd strategol

Rydym yn cynnig cyflwyno ymgyrchoedd strategol gyda therfyn amser ac y gellid eu darparu ar draws y Deyrnas Unedig neu o fewn un rhanbarth neu wlad. Byddant yn galluogi pwyslais mwy byrdymor ar gyfleoedd penodol megis annog mwy o geisiadau gan grwpiau neu ardaloedd penodol, neu eu cynnal ar y cyd â digwyddiadau neu ddatliadau blwydd. Gellir eu cynnig ar unrhyw lefel o grant.

Bydd ymgyrchoedd strategol yn canolbwyntio ar anghenion neu gyfleoedd a nodwyd gennym. Gallent fod yn seiliedig ar feysydd treftadaeth penodol, neu agweddau o ymgysylltu pobl gyda hyn (e.e. Sgiliau, llesiant), neu grŵp buddiolwyr penodol (e.e. pobl ifanc), neu anghenion cyffredinol (e.e. Adeiladu gwytnwch neu alluoedd digidol ar draws y sector).

Byddwn hefyd yn parhau i wneud ymyraethau strategol mewn partneriaeth ag eraill wrth i'r cyfleoedd godi, er enghraifft, trwy gymell ceisiadau i fodloni anghenion neu raglenni strategol a fydd yn ysgogi arloesi ac yn meithrin gallu ar draws y sector.

Pa anghenion neu gyfleoedd ddylai CDL flaenoriaethu ar gyfer ymgyrchoedd strategol yn ystod blynyddoedd cynnar y Fframwaith Ariannu Strategol nesaf?

Ar gyfer mathau penodol o ymgyrch strategol, gallem ystyried gwneud cynigion grant ar gyfradd sefydlog – er enghraifft, byddem yn cyhoeddi o flaen llaw ein bod eisiau gwneud, dyweder, 10 dyfarniad o £1 miliwn i daclo angen neu gyfle strategol penodol, ac yn gwahodd cynigion.

A ydych chi' n gweld unrhyw fanteision i CDL yn cynnig grantiau cyfradd sefydlog ar gyfer mathau penodol o brosiect trwy ymgyrchoedd strategol?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Cyllid partneriaeth

Rydym eisiau uchafu'r gwerth a buddion a gyflawnir trwy fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth tra'n sicrhau bod y prosiectau a gefnogir gennym yn ariannol ddichonadwy a chynaliadwy. Gallwn ddarparu cefnogaeth i sefydliadau i ddatblygu eu gallu a sgiliau codi arian gan ddisgwyl cynnig mwy o adnoddau i helpu sefydliadau i wella eu sgiliau llywodraethu, busnes a chynllunio ariannol yn y dyfodol. Mae yna nifer o ffyrdd ble gallem sicrhau ein bod yn cyfrannu'n ariannol i brosiectau ar y lefel briodol ac yn uchafu'r cyfraniadau gan eraill yn realistig.

Ar hyn o bryd rydym yn gofyn am gyfraniad cyllid partneriaeth (mewn arian parod neu nwyddau (e.e. Trwy ddefnydd am ddim o leoliad)) gan rai sy'n derbyn grantiau r y cyfraddau isafswm canlynol:

- Hyd at £100,000 – dim cyfraniadau gofynnol (anogir cyfraniadau mewn nwyddau a gwirfoddol)
- Dros £100,000 a hyd at £1 miliwn – 5% mewn arian neu nwyddau
- Dros £1 miliwn – 10% mewn arian neu nwyddau

A ddylem newid yr ymagwedd hon?

- Dylech – gofyn am fwy o gyllid partneriaeth
- Dylech – gofyn am lai o gyllid partneriaeth
- Na – cadw'r ymagwedd bresennol

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Sut ddylai CDL gyflawni cydbwysedd thwng cynnig cyfleoedd cyllido agored ac ymyraethau strategol trwy ymgyrchoedd, rhaglenni partneriaeth neu gronfeydd arloesi?

- Dylai CDL flaenoriaethu buddsoddiad yn y rhaglen grant agored
- Dylai CDL roi pwysau cyfartal i fuddsoddiad mewn cyllid agored ac ymyraethau strategol
- Dylai CDL flaenoriaethu buddsoddiad mewn ymyraethau strategol

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym yn annog ymgeiswyr i gymryd camau i leihau defnydd o adnoddau ac i osgoi effeithiau negyddol ar yr amgylchedd. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y canlyniad 'bydd effeithiau amgylcheddol negyddol wedi eu lleihau' yn ein hasesiad a phroses gwneud penderfyniadau.

Casglodd ymchwil a gomisiynwyd yn 2016 fod cynaliadwyedd amgylcheddol bellach yn agwedd llawer mwy prif ffrwd o gynllunio ac adeiladu adeiladau, a bod mwyafrif cyngorwyr

a chontractwyr proffesiynol yn pennu, rheoli a chyflawni mentrau cynaliadwyedd amgylcheddol fel arfer safonol.

Gan fod yr angen i addasu i newid hinsawdd ac i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol bellach yn gyffredin, yn y dyfodol byddwn yn gofyn i ymgeiswyr ddelio ag addasiadau newid hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol fel rhan ganolog o bob prosiect ac yn ystyried y mesurau cynaliadwyedd arfaethedig yn rhan o'n hasesiad risg o'r prosiect a'r achos busnes, yn hytrach na chanlyniad. Byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ar ein gwaith cydweithredol diweddar gyda'r Rhwydwaith Parod at y Dyfodol i gefnogi ymgeiswyr a derbynwyr grant posibl i fabwysiadu polisiau amgylcheddol effeithiol ac i gyflawni prosiectau sydd ag effeithiau amgylcheddol positif diriaethol.

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai pob prosiect fewnosod cynaliadwyedd amgylcheddol ac y dylai hyn fod yn rhan o'n meini prawf safonol ar gyfer asesu ceisiadau?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Sut ddylai CDL sicrhau bod ymgeiswyr yn dilyn arfer gorau ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac yn delio ag effeithiau negyddol posibl newid hinsawdd?

Rhan 5: Gwella'r profiad i gwdmeriaid

Cefnogaeth ac arweiniad i ymgeiswyr

Byddwn yn parhau i sicrhau bod y broses ymgeisio mor syml â phosibl ac y cefnogir ymgeiswyr i gyflawni prosiectau o ansawdd uchel.

Byddwn yn darparu detholiad newydd o adnoddau digidol i wneud ein proses ymgeisio yn glir a syml, gydag arweiniad ar ein gofynion ac ar sut i ddatblygu prosiectau treftadaeth o ansawdd uchel.

Pa rai o'r adnoddau canlynol ydych chi'n meddwl fyddai fwyaf defnyddiol i ymgeiswyr wrth baratoi cynigion a cheisiadau prosiectau? *Graddiwch y tri mwyaf defnyddiol.*

- Dogfennau arweiniad ar ymgeisio a nodiadau cymorth
- Canllawiau fideo i lywio'r broses ymgeisio ar-lein
- Fideos byr 'awgrymau da' gan ymgeiswyr llwyddiannus
- Cefnogaeth cyfoed i gyfoed (gan dderbynyddion cyfredol/diweddar) trwy gymuned ar-lein
- Pecynnau offer ac arweiniad ar-lein ar bynciau arbenigol e.e. Gwerthuso, gweithio gyda phobl ifanc
- Gweminarau ar bynciau arbenigol e.e. ar gynllunio a rheoli prosiectau
- Offer hunan-asesiad ac / neu restrau gwirio i nodi 'parodwydd y prosiect'
- Cyngor penodol, fel llinell gymorth ac / neu gyfleuster sgwrsio ar-lein
- Arall, nodwch

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Rheoli cystadleuaeth yn effeithiol

Mewn amgylchedd gyllido gystadleuol, rydym eisiau lleihau faint o adnoddau a ddefnyddir gan ymgeiswyr cyn iddynt gael syniad realistig os yw'n werth chweil iddynt wneud cais. Ar gyfer grantiau mwy (dros £250,000) rydym yn cynnig cyflwyno cyfnod sgrinio Mynegiant o Ddiddordeb ffurfiol, i Sicrhau bod y cyfraddau llwyddiant ar gyfer y rhai sy'n mynd ymlaen i gais llawn yn rhesymol. Byddwn yn asesu cyflwyniadau Mynegiant Diddordeb cryno yn erbyn meini prawf a gyhoeddwyd, ac yn cynghori p'un a fyddem yn annog cais llawn neu beidio.

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai CDL gyflwyno cyfnod sgrinio Mynegiant Diddordeb ar gyfer grantiau mwy?

- Cytuno'n gryf
- Tueddol o gytuno
- Tueddol o anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Ei gwneud yn haws i ymgeisio am grant gan CDL

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar sut allwn ni sicrhau y defnyddir cyllid y Loteri yn effeithiol a sut allwn ni ei gwneud yn haws i ymgeisio am grant gan CDL.

Yn eich barn chi, a oedd y gwaith oedd angen ei wneud i baratoi cais yn gymesur gyda maint y grant yr ymgeisioch amdano?

- Oedd
- Nac oedd
- Ddim yn gwybod

Pam ydych chi'n dweud hynny?

Sut allai CDL symleiddio ei brosesau ymgeisio i sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl (er enghraifft, trwy dderbyn ceisiadau trwy fideo neu gyfryngau ar-lein eraill, neu ddefnyddio cyfweiliadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar-lein yn rhan o'r broses asesu)?

Sut allai CDL wneud ei brosesau ar gyfer rheoli eich grant wedi dyfarnu yn fwy effeithiol?

Sut allai CDL ddefnyddio technoleg ddigidol i wella profiad y cwsmer ar gyfer ymgeiswyr a derbynyddion?

Rhan 6: Sylwadau terfynol, adolygu a chyflwyno

A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w nodi?

Nawr mae gennym ychydig o gwestiynau byr amdanoch chi gan ein bod eisiau sicrhau bod unrhyw newidiadau a gyflwynir i'n polisiau a rhaglenni yn deg. Byddwn yn defnyddio unrhyw ddata a manylion atodol a roddwch isod i'n helpu i asesu hyn.

Isod mae'r nodweddion gwarchoddedig a sefydlir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. A yw gwaith neu wasanaethau eich sefydliad (neu chi, os ydych chi'n gweithio fel gweithiwr llawrydd neu ymgynghorydd unigol), yn canolbwyntio'n benodol neu'n cynrychioli'n benodol grwpiau lleiafrifol o fewn unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig hyn? Gallai enghreifftiau o hyn fod yn sefydliad yn gweithio i wella mynediad ar dreftadaeth i bobl anabl, neu un sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth crefydd neu hil lleiafrifol yn y Deyrnas Unedig. *Dewiswch bob un cymwys.*

	<i>Yn canolbwyntio'n benodol ar neu'n cynrychioli</i>	<i>Yn canolbwyntio'n rhannol ar neu'n cynrychioli</i>	<i>Nid yw'n canolbwyntio'n benodol ar na'n cynrychioli</i>	<i>Gwell gen i beidio â dweud</i>
Oedran				
Anabledd				
Ailbennu rhywedd				
Priodas a phartneriaeth sifil				
Beichiogrwydd a mamolaeth				
Hil				
Crefydd neu gred				
Rhyw (gwrywaidd neu fenywaidd)				
Tueddfryd rhywiol				

Fe grybwylloch fod y sefydliad rydych yn gweithio iddo (neu chi os ydych chi'n gweithio fel gweithiwr llawrydd neu ymgynghorydd unigol) yn cynrychioli grŵp lleiafrifol o fewn o leiaf un i'r nodweddion gwarchoddedig a grybwyllwyd yn y cwestiwn blaenorol. A allech chi ddarparu mwy o fanylion isod ar yn union pa grŵp neu grwpiau lleiafrifoedd mae'ch sefydliad (neu chi) yn cynrychioli?

A oes yna unrhyw beth yn y cynigion a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn a fyddai'n cael effaith bositif neu negyddol arnoch chi, neu unrhyw grwpiau lleiafrifol o fewn y nodweddion gwarchoddedig hyn?

Diolch i chi am gymryd yr amser i ymateb i'n cwestiynau. Byddwn mewn cysylltiad unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi adrodd i roi gwybod i chi beth yw'r prif ganfyddiadau a'n camau nesaf.
